# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**The Mill Child Care Centre Ltd**

**Lôn Parcwr**
**Rhuthun**
**LL15 1BX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**14 Mehefin 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa y Felin yn nhref Rhuthun ac mae wedi'i chofrestru i ddarparu gofal i hyd at 118 o blant o 0 hyd at 12 oed. Mae plant oedran ysgol yn derbyn gofal yn y clwb gwyliau, sy'n gweithredu yn ystod gwyliau ysgol ac mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig gwasanaeth ar ôl ysgol. Mae'r gwasanaeth ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 5.30pm, ac mae 7:30am–8am a 5:30–6pm hefyd ar gael os ydych yn archebu o flaen llaw. Y brif iaith a siaredir yw Saesneg; caiff y plant eu cyflwyno i'r iaith Gymraeg ond, ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaeth yn darparu'r 'cynnig gweithredol'. Ffion Roberts yw'r person cofrestredig a Gillian Kensall yw'r person â gofal.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn brysur ac yn mwynhau eu hamser ym Meithrinfa y Felin. Maent yn elwa o wasanaeth sydd wedi'i gynllunio'n dda iawn ac sy'n cynnig profiadau cadarnhaol i hyrwyddo'u dysgu a'u datblygiad. Mae'r staff yn frwdfrydig ac yn ddiwyd yn eu rolau; maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn ceisio sicrhau canlyniadau da i'r plant yn eu gofal. Mae'r staff yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac maent yn rhannu gwybodaeth ac arfer da mewn modd cadarnhaol. Mae'r amgylchedd wedi'i gynllunio'n dda o safbwynt plentyn ac wedi'i deilwra i fodloni camau datblygiad amrywiol. Rheolir y risgiau'n dda ac mae diogelwch y plant yn derbyn blaenoriaeth uchel. Mae arweinyddiaeth y gwasanaeth yn arloesol gyda rheolwyr ymrwymedig ac ymroddedig. Mae'r rhieni'n darparu adborth cadarnhaol ac yn hynod o fodlon ar y gofal a gynigir.

### 2. Gwelliannau

Mae'r arweinwyr wedi penodi pedwar aelod o staff fel llysgenhadon, sy'n ymgymryd â rôl arweiniol wrth sicrhau bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda mewn meysydd penodol.

Defnyddir cyfarfodydd staff i rannu arfer da a rhaeadru gwybodaeth o gyrsiau hyfforddiant penodol y mae'r staff wedi bod iddynt.

Caiff y broses ymsefydlu staff ei hadolygu a'i gwerthuso.

Mae arweinwyr a staff wedi rhoi system newydd ar waith i gynllunio ar gyfer camau nesaf dysgu'r plant.

Gosodir a chytunir ar dargedau perfformiad unigol rhwng y staff a'r arweinwyr.

Gwnaeth y feithrinfa ailennill Gwobr Ansawdd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Lefel 3 ym mis Gorffennaf 2017.

Yn ddiweddar, roedd yr arweinwyr wedi derbyn cydnabyddiaeth am eu hymroddiad ac wedi derbyn y wobr cyflogwr rhagorol gan Chwarae Teg.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â hyrwyddo iechyd plant a'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu ac yn ffynnu mewn amgylchedd gofalgar ac ysgogol. Maent yn datblygu perthnasau ac yn elwa ar y profiadau cadarnhaol a gynigir.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Gall y plant ddewis o amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau cymwys ynghylch sut maent yn treulio'u hamser.

Roedd y plant yn cael dewis drwy gydol y dydd am ba weithgareddau roeddent am gymryd rhan ynddynt ac roeddent yn hyderus i fynegi eu hunain. Roedd y plant yn mwynhau creu siapau gyda thoes chwarae, gan dynnu sylw ei gilydd a'r staff at bethau yn hyderus; gwnaethant ofyn cwestiynau a dathlu wrth iddynt lwyddo i gwblhau tasg. Nid oedd un plentyn am gymryd rhan mewn gweithgaredd paentio gyda dwylo a chafodd gynnig dewisiadau amgen. Roeddent yn hyderus y byddai rhywun yn gwrando arnynt ac roeddent yn fodlon gofyn i'r staff pan oeddent am gael rhywbeth. Gofynnodd y plant a allent fynd allan i chwarae, a chawsant eu cefnogi i wneud hynny. Gofynnodd un plentyn i dynnu llun, ac aeth i nôl pensiliau ar ei ben ei hun.

Mae'r plant yn hyderus ac yn gyfforddus i wneud eu dewisiadau eu hunain a lleisio'u dymuniadau. Maent yn mynegi eu barn yn hawdd a dylanwadu ar sut maent yn treulio'u hamser.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Maent yn creu cyfeillgarwch gyda'r rhai o'u cwmpas.

Roedd y plant yn gwenu ar eu ffrindiau a'r staff. Roeddent yn gyfforddus yn eu hamgylchedd ac yn adnabod y rhai o'u cwmpas yn dda. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol; roeddent yn gwybod yr hyn oedd yn ddisgwyliedig ganddynt a rhoddodd hyn ddiogelwch a hyder iddynt. Er enghraifft, roeddent yn gwybod ei fod yn amser iddynt eistedd gyda'i gilydd ar gyfer amser cylch neu ei fod yn amser iddynt ddewis yr hyn roeddent am chwarae ag ef. Roedd y plant yn helpu ac yn cefnogi ei gilydd i gwblhau tasgau; gwelsom blentyn bach yn rhannu'r bibiau rhwng ei ffrindiau wrth iddynt eistedd wrth y bwrdd yn aros am amser cinio. Derbyniodd y plant y bibiau gan wenu ac roedd y plentyn yn hapus ac yn falch o'i gyflawniad. Cafodd anghenion y plant eu cydnabod ac roedd y staff yn ymateb yn briodol. Fe'n clywsom yn gofyn, 'Ydych chi'n iawn?' ac 'Ydych chi am gael coflaid?' Aeth y plant at y staff am gysur a gwnaethant fwynhau'r agosrwydd hwnnw.

Mae'r plant yn meithrin ymdeimlad o berthyn ac maent yn hapus i dreulio amser gyda'r rheini o'u cwmpas.

### 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu rheoli eu hymddygiad a chymryd tro ac yn dod yn sensitif i emosiynau pobl eraill.

Roedd y plant yn cydweithio'n dda â'i gilydd; er enghraifft, roeddent yn dangos diddordeb yn yr hyn roedd plant eraill o'u cwmpas yn ei wneud. Roedd y plant yn eistedd o amgylch y bwrdd yn cwblhau gweithgaredd â ffocws, a gwnaethant helpu ei gilydd i gydweddu'r baneri cywir. Yn ystod amser bwyd ac amser byrbryd, roedd gan y plant gyfle i sgwrsio a chymdeithasu gyda'i gilydd. Er enghraifft, gwelsom ddau blentyn yn mwynhau sgwrs hir dros eu cinio. Gwnaethant chwerthin a gwenu ar ei gilydd ac yna ddweud wrth y staff yr hyn roeddent wedi bod yn siarad amdano. Yn ystod amser cylch, gwnaeth y plant ddewis y caneuon roeddent am eu canu a dawnsio iddynt a gwnaethant guro dwylo a dathlu pan oedd eu ffrindiau'n cael eu dewis i ganu neu gymryd rhan yn y gweithgaredd.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Maent yn llongyfarch cyflawniadau'r naill a'r llall ac maent yn awyddus i helpu a chefnogi eu cyfoedion.

### 1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn ddysgwyr prysur a chwilfrydig, sydd wedi cyffroi ac â diddordeb yn y gweithgareddau a gynigir.

Mae'r plant sy'n mynychu'r clwb gwyliau'n elwa o allu hunangyfeirio eu hamser yn y gwasanaeth. Er enghraifft, ar ddechrau gwyliau'r haf, roeddent yn dyfeisio'u rhaglen eu hunain o weithgareddau, gan sicrhau bod eu hamser yn llawn hwyl a'i fod yn ystyrlon iddyn nhw. Gwelsom luniau o'r gweithgareddau roeddent wedi cymryd rhan ynddynt yn ddiweddar a gweld sut roedd cynlluniau wedi cael eu newid a'u haddasu gan ddibynnu ar ddewisiadau a diddordebau'r plant. Roedd gan y plant gyfleoedd rheolaidd i fwynhau chwarae a oedd yn cynnig profiad synhwyraidd iddynt. Er enghraifft, gwelsom fabanod yn mwynhau chwarae gyda basgedi ceirch a thrysor a phlant 12–18 mis yn archwilio gyda chwstard yn ddiweddarach. Roedd y dysgu'n cael ei wneud yn hwyl ac yn ddiddorol. Er enghraifft, cafodd sachau straeon eu defnyddio'n rheolaidd yn yr holl ystafelloedd er mwyn bywiogi straeon. Gwelsom stori wedi'i hanimeiddio'n cael ei darllen i'r plant ac roeddent yn cymryd rhan weithredol yn y stori drwy ychwanegu at y profiadau drwy symudiadau a seiniau.

Mae'r plant yn ddysgwyr chwilfrydig ac maent yn awyddus i rannu eu cyflawniadau a dysgu o'r byd o'u cwmpas.

### 1.5 Pa mor dda mae’r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus ac annibynnol ac yn gwneud cynnydd da.

Roedd y plant yn cael eu paratoi ar gyfer pontio rhwng yr ystafelloedd ac roeddent yn derbyn digon o gefnogaeth i ddatblygu a symud ymlaen. Er enghraifft, roedd y plant bach yn derbyn cyfleoedd dyddiol am sesiwn grŵp chwarae yn yr ystafell cyn-ysgol, gan eu galluogi i ymgyfarwyddo â'r drefn ddyddiol a phrofi amrywiaeth eang o brofiadau cadarnhaol. Roedd y plant yn cael eu hannog i gario'u heiddo eu hunain wrth i'r staff fynd i newid eu cewynnau ac roeddent yn ymfalchïo'n fawr mewn derbyn tasg i'w gwneud. Roedd y plant yn cael eu gofyn yn rheolaidd a oeddent am geisio gwneud rhywbeth eu hunain neu a oeddent am i rywun eu helpu. Roedd gan y plant fynediad rheolaidd i ddŵr yfed ac roedd poteli yfed wedi cael eu labelu â lluniau’r plant yn ogystal â'u henwau i gefnogi eu hannibyniaeth.

Roedd y plant yn gallu dewis pryd roeddent yn bwyta'u byrbryd yn yr ystafell cyn-ysgol a gwnaethant gymryd cyfrifoldeb dros glirio eu llestri. Roedd y plant a oedd yn mynychu'r clwb gwyliau yn cael eu cefnogi i ddewis pa adnoddau ychwanegol roeddent am eu prynu gyda'r arian a oedd ar gael iddynt. Roedd sgiliau mathemategol a rhesymeg yn cael eu datblygu wrth iddynt ddod i benderfyniad cytunedig o ran yr hyn a fyddai'n fwyaf addas i bawb a'r hyn roeddent yn gallu'i fforddio.

Mae'r plant yn gallu cyflawni pethau drostynt eu hunain a ffynnu oherwydd y profiadau a gynigir.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn eithriadol o ymroddedig i'w swyddi. Mae cyfrifoldebau a dyletswyddau wedi'u diffinio'n glir. Rhoddir cryn flaenoriaeth i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n dda, gan ystyried gallu'r plant a sicrhau eu bod yn elwa o'r amser a dreulir yn y gwasanaeth.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan y staff ddealltwriaeth ardderchog o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn ymrwymedig i hyrwyddo llesiant cyffredinol y plant.

Roedd polisïau a gweithdrefnau'n hawdd mynd atynt ac wedi'u hymgorffori yn arferion y gwasanaeth. Roedd yr holl rifau cyswllt brys yn hawdd eu cyrraedd yn y brif swyddfa. Dangosodd y staff ddealltwriaeth gadarn o ddiogelu a gwelsom dystiolaeth eu bod yn sicrhau iechyd a llesiant parhaus y plant. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gyfarwydd â'r broses i'w dilyn pe baent yn pryderu am blentyn, a gwnaethant ddweud wrthym hefyd bod ganddynt gyfle i gael trafodaethau un i un yn ystod eu goruchwyliaeth. Mae'r gwasanaeth wedi penodi swyddogion diogelu sydd ar gael i gynnig cymorth ac arweiniad pan fo angen. Roedd yr holl staff y gwnaethom siarad â hwy'n teimlo fel bod ganddynt ddigon o gyfleoedd i siarad â'i gilydd ac arweinwyr i fonitro llesiant y plant.

Mae'r staff wedi meithrin perthynas weithio agos ac effeithiol â'i gilydd a chyda rhieni. Mae aelodau penodedig o staff wedi cael eu penodi fel llysgenhadon dros feysydd penodol i hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r llysgenhadon yn ymgymryd â rôl arweiniol wrth hyrwyddo arfer da. Roedd ffurflenni damweiniau a digwyddiadau wedi cael eu cwblhau'n llawn ac roedd adolygiad trwyadl yn cael ei gynnal bob mis i ganfod a oedd unrhyw batrymau sylweddol a fyddai'n awgrymu bod angen rhoi newidiadau ar waith.

Roedd y staff yn dilyn y weithdrefn a argymhellir gan offeryn archwilio rheoli heintiau Cymru gyfan wrth newid cewynnau i leihau'r risg o ledaenu heintiau. Roedd yr wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i rhannu'n ddiweddarach â rheini drwy'r system dyddiadur dyddiol ar-lein. Ar adeg cofrestru, roedd y rhieni'n cwblhau gwybodaeth fanwl am iechyd eu plant, gan alluogi'r staff i ofalu am eu plant yn ddiogel.

Roedd y staff yn cefnogi'r plant i olchi eu dwylo gyda sebon a dŵr cyn amser bwyd, ond gwelsom rai plant yn rhannu'r un bowlen o ddŵr. Gwnaethom argymell y dylai pob plentyn gael mynediad annibynnol at ddŵr glân a sebon dwylo hylif i leihau'r risg o ledaenu heintiau. Gwelwyd bod y staff yn diheintio eu dwylo'n rheolaidd – er enghraifft, cyn rhoi bwyd i'r plant. Roedd y prydau a'r byrbrydau a ddarparwyd yn iachus a maethlon, ac roeddent yn cael eu paratoi gan gogydd penodol ar y safle. Roedd bwydlen wahanol yn cael ei defnyddio ar gyfer plant ag alergeddau a hoffterau deietegol. Ar ôl amser bwyd, roedd y plant yn derbyn lleiniau wyneb unigol er mwyn golchi eu hwynebau a'u dwylo.

Rhoddwyd cryn flaenoriaeth i ymarfer corff. Gwelwyd bod y babanod yn mwynhau gallu symud rhwng yr awyr agored a'r tu mewn ffordd gysurus. Rodd y staff yn mynd â'r plant allan yn rheolaidd i'r gymuned i gerdded ac ymweld â safleoedd o ddiddordeb.

Mae gan staff fesurau ardderchog mewn lle i sicrhau bod lles cyffredinol ac iechyd plant yn cael eu hyrwyddo.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae'r staff yn gyson. Mae'n hawdd mynd atynt ac maent yn ofalgar.

Roedd y staff yn siarad â'r plant mewn modd digynnwrf a gofalgar, ac roedd y plant yn ymateb yn yr un modd. Clywsom lawer o eiriau anwes yn cael eu defnyddio'n rheolaidd a chafodd ymddygiad cadarnhaol ei ddathlu. Roedd y staff yn canmol ac yn annog y plant yn rheolaidd, gan roi gwybod iddynt pa mor dda roeddent wedi gwneud. Roedd staff yn modelu ymddygiad priodol; roeddent yn diolch i'w gilydd ac yn llongyfarch ei gilydd yn rheolaidd am eu hymrwymiad a'u gwaith caled. Gwelsom wal ddiolch yn dangos nodiadau a oedd wedi'u cwblhau gan staff yn diolch, yn llongyfarch ac yn cydnabod eraill am eu gwaith caled wrth helpu a chefnogi staff a phlant. Roedd rhai aelodau o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar reoli ymddygiad cadarnhaol yn ddiweddar. Yn ddiweddar, roedd y staff wedi bod i sesiwn rhannu gwybodaeth ar roi technegau tynnu sylw ar waith yn effeithiol. Roedd adnoddau i gefnogi technegau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar gael yn hawdd i'r holl staff i'w cefnogi wrth ofalu am blant.

Mae'r staff yn meithrin ac yn hyrwyddo perthnasau cadarnhaol ac maent yn ofalgar a brwdfrydig yn eu dull. Maent yn gadarnhaol ac yn feithringar ac yn cefnogi'r plant i ddeall yr hyn sy'n briodol ac yn ddisgwyliedig ganddynt.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad y plant trwy gynllunio profiadau chwarae a dysgu amrywiol a diddorol sy'n addas ar gyfer pob oed a cham datblygiad.

Roedd y staff yn ymdrechu i roi sylw unigol i'r plant. Er enghraifft, roedd gweithwyr allweddol yn cael eu dyrannu ac roedd ganddynt wybodaeth unigol benodol am y plant a oedd wedi'u dyrannu iddynt. Roedd yr holl aelodau staff wedi dyfeisio'u blychau gweithiwr allweddol eu hunain a oedd yn benodol iddyn nhw. Roedd y rhain yn cynnwys eitemau a ddewiswyd yn bersonol i'w defnyddio i rannu a chwblhau gweithgareddau gyda'r plant a oedd wedi'u dyrannu iddyn nhw. Gallai'r rhain hefyd gael eu hanfon adref i rieni eu defnyddio, a oedd yn meithrin perthynas waith agos rhwng Meithrinfa y Felin a chartrefi'r plant.

Roedd y staff yn ymroddedig i sicrhau bod diwrnodau'r plant yn brysur ac yn llawn gweithgareddau diddorol. Roedd cynllunio wedi'i reoli'n effeithiol ac roedd cynnydd a

chyflawniadau'r plant yn cael eu holrhain a'u dathlu.  Roedd arweinwyr ystafell yn cymryd rôl arweiniol wrth roi gweithgareddau cynlluniedig ar waith ac roedd y rhain wedi cael eu hadolygu a'u gwerthuso i sicrhau eu bod yn cyflawni eu nod cytunedig.   Roedd y staff yn arsylwi'n rheolaidd ar gynnydd y plant, a oedd yn llywio cynlluniau gweithgareddau manwl cysylltiedig â themâu cyfredol.  Gwelsom fod camau dysgu nesaf y plant yn cael eu harddangos yn falch ym mhob ystafell a'u bod yn cael eu rhannu â'r rhieni drwy adroddiadau cynnydd rheolaidd.

Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r plant. Maent yn meithrin perthnasau cadarnhaol i sicrhau bod trefniadau dyddiol yn darparu sefydlogrwydd a diogelwch ac yn creu ymdeimlad o hwyl a mwynhad.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynllunio'n ofalus o safbwynt plentyn. Mae risgiau'n cael eu rheoli'n dda ac mae'r adnoddau o safon, gan gynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu gwahanol i'r plant. Mae'r arweinwyr yn darparu mannau lle gall y plant ymlacio yn ogystal â mannau iddynt eu harchwilio a chwarae ynddynt.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae’r arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch plant ac yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u bod yn rhoi newidiadau ar waith pan fo angen.

Caiff mynediad i'r safle ei reoli a'i fonitro'n effeithiol ar bob adeg, ac mae'r defnydd effeithiol o'r system adnabod blaen bysedd yn galluogi arweinwyr i fonitro a rheoli pwy sy'n dod i'r adeilad. Roedd yr holl rieni wedi'u cofnodi ar y system a gallant ddod i'r safle i gasglu a gollwng eu plant. Roedd cofnod ymwelwyr a chofrestr ddyddiol yn cael eu cadw, gan gofnodi'r staff a'r plant a oedd yn dod i'r safle; roedd rhieni hefyd yn gyfrifol am gofnodi bod eu plant ar y safle ac, o'r cofnodion a welsom, gwelsom fod rhieni yn ymdrechu i ddilyn y weithdrefn.

Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer yr holl ardaloedd a ddefnyddir ac roedd y rhain wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol. Roedd asesiadau risg ychwanegol wedi cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau penodol neu unrhyw newidiadau i'r amgylchedd. Gwelsom fod trefn lanhau ddyddiol effeithiol yn cael ei rhoi ar waith, gyda dulliau a gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn. Mae'r arweinwyr wedi penodi dau warden tân o dîm y staff ac mae cwmni gwasanaeth tân annibynnol yn gwerthuso'r gweithdrefnau diogelwch tân yn rheolaidd. Ymgymerwyd ag ymarferion tân yn rheolaidd ac, yn dilyn adolygiad diweddar, roedd yr arweinwyr wedi penderfynu treialu man ymgasglu arall mewn achos o dân i benderfynu a fyddai'n fwy addas. Roedd y llwybr gadael mewn tân wedi'i arddangos ym mhob ystafell.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod peryglon yn cael eu nodi a bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau i ddiogelwch plant.

### 3.2 Pa mor dda mae’r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd diddorol a chyfforddus sy'n diwallu anghenion y plant yn dda.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd y staff yn gweithio'n galed i ddarparu amgylchedd ysgogol a diddorol ar gyfer y plant yn gyson. Roedd yr holl ystafelloedd a mannau’n groesawgar ac yn cyfoethogi profiadau chwarae'r plant. Roedd yr holl gyfleusterau wedi'u lleoli ar un llawr, a oedd yn caniatáu i'r

plant gael mynediad atynt a'u defnyddio'n annibynnol.  Er enghraifft, roedd y plant hŷn yn gallu defnyddio'r toiled ar eu pen eu hunain.  Mae gan y plant fynediad uniongyrchol i'r ardd a'r ardaloedd chwarae awyr agored. Roedd y babanod yn rhydd i archwilio eu hardal chwarae awyr agored oherwydd y llawr pob tywydd.   Ceir mannau cysgu dynodedig i bob ystafell ac mae'r arweinwyr yn chwilio am ffyrdd yn barhaus i ddatblygu a gwella'r mannau sydd ar gael i'r plant eu defnyddio.  Gwelsom sut roedd wal wedi cael ei dynodi i'r plant arddangos eu gwaith eu hunain ac y gallent ddewis yr hyn roeddent am ei arddangos.  Roedd hyn yn golygu bod gan y plant ymdeimlad o berchnogaeth a pherthyn.   Roedd cegin fwd a thŷ chwarae tywod wedi cael eu gosod yn ddiweddar i'r plant chwarae ynddynt.  Roedd wigwam lle gallai'r plant fwynhau straeon ac roedd y plant yn elwa o'r un profiadau chwarae a dysgu cadarnhaol dan do ac yn yr awyr agored.

Mae’r staff a’r arweinwyr yn llwyddo i ddarparu amgylchedd diddorol ac ysgogol sy'n diwallu anghenion y plant mewn modd priodol.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae’r arweinwyr yn darparu mynediad at ddeunyddiau chwarae ar gyfer plant sy'n addas ac yn briodol i'w hanghenion.

Roedd staff yn gyfarwydd ac yn hyderus gyda'r adnoddau a oedd ar gael. Er enghraifft, gwelsom y staff yn newid yr eitemau ar gyfer y plant yn rheolaidd yn ystod y dydd.  Roedd y staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm, gan sicrhau bod y plant yn cael eu diddanu mewn modd cadarnhaol wrth sicrhau bod adnoddau ar gael iddynt.  Roedd adnoddau'n cael eu storio mewn bocsys wedi'u labelu'n glir, a oedd yn eu gwneud yn hawdd eu cyrraedd.  Roedd amrywiaeth eang o ddeunyddiau gwahanol ar gael ac roedd staff yn dilyn system gadarn ar gyfer sicrhau bod teganau'n lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.  Er enghraifft, gwelsom restr o ddyletswyddau ac roedd y staff a oedd yn gyfrifol am bob un yn cael eu harddangos yn yr ystafelloedd chwarae.  Caiff unrhyw faterion neu adnoddau ychwanegol mae eu hangen eu cofnodi, ac mae problemau a llwyddiannau’n cael eu trafod yn fisol gan arweinwyr, sy’n cytuno ar gynlluniau gweithredu i roi sylw iddynt.

Mae’r arweinwyr yn darparu adnoddau dyfeisgar sy'n hybu chwilfrydedd y plant.  Mae adnoddau'n cael eu storio mewn modd addas, yn cael eu cadw’n ddiogel ac yn lân, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae arweinwyr yn ymroddedig ac yn hyrwyddo a chefnogi'n llwyddiannus ymdeimlad clir o ddiben. Mae'r arweinwyr yn ymdrechu i sicrhau bod y gwasanaeth yn flaengar ac yn wasanaeth lle y bydd y plant yn ffynnu. Mae'r staff yn cael eu cefnogi a'u hysgogi'n fawr i sicrhau canlyniadau da ar gyfer y plant. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth a gynigir yn fawr ac maent yn siarad yn gadarnhaol am y gofal mae eu plant yn ei dderbyn.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn cynllunio a darparu gwasanaeth rhagorol.

Mae'r arweinwyr wedi trosglwyddo eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn dda, ac yn cefnogi'r staff i gyflawni eu swyddogaethau. Yn ddiweddar, roedd arweinwyr wedi derbyn cydnabyddiaeth am eu hymroddiad ac wedi derbyn y wobr cyflogwr rhagorol gan Chwarae Teg. Roedd y person cofrestredig a'r person â gofal yn llwyddo i weithio gyda'i gilydd i arwain y gwasanaeth ac maent yn weladwy ac ar gael. Maent yn rhoi blaenoriaeth bennaf i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i symud ymlaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn ar gyfer cyfeiriad a chyflawniadau'r gwasanaeth. Mae'r person â gofal yn hynod ymrwymedig ac yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl i gefnogi arfer ac i fod yn flaengar ac yn arloesol. Gweithredwyd ar yr holl argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol ac mae'r person â gofal hefyd wedi rhoi newidiadau blaengar ar waith i ddatblygu'r gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn ofalus iawn yn eu harweinyddiaeth i ysgogi'r lleoliad i fod yn amgylchedd meithringar a gofalgar lle mae'r plant yn hapus, yn awyddus i ddysgu ac yn hyderus. Mae llysgenhadon staff wedi cael eu penodi'n ddiweddar ar gyfer meysydd penodol – er enghraifft, mae llysgennad wedi cael ei benodi dros iechyd a diogelwch, diogelu, a diwallu anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i'r staff ffynnu a rhagori mewn meysydd o ddiddordeb arbennig iddyn nhw. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac ar gael yn rhwydd i'r rhieni a'r staff. Gwnaethom drafod ag arweinwyr cyflwyniad diweddar y 'cynnig gweithredol' a'r disgwyliad i'r Gymraeg fod ar gael yn hawdd yn y gwasanaeth. Mae newidiadau diweddar o ran staffio wedi golygu bod y gwasanaeth wedi colli nifer o siaradwyr Cymraeg ond arddangoswyd ymwybyddiaeth ac awydd i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a bod y plant yn cael eu cyflwyno i'r iaith.

Mae gan arweinwyr a staff ymdeimlad clir o bwrpas sy'n hyrwyddo gwelliannau ac sy'n rhagori'n rheolaidd ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn asesu ansawdd eu gwasanaeth yn rheolaidd ac yn rhoi strategaethau cadarn ar waith i wella a datblygu'r gwasanaeth lle y bo angen.

Gwelsom dystiolaeth o arweinwyr yn asesu canlyniadau ac yn myfyrio'n rheolaidd ar yr hyn maent yn ei wneud ac yn gwneud newidiadau cadarnhaol fel y bo angen.  Rhannir arfer cadarnhaol â'r holl staff yn ystod cyfarfodydd staff, gyda'r staff yn cyflwyno astudiaethau achos i rannu arfer da. Mae hyn yn cefnogi staff eraill i roi newidiadau cadarnhaol ar waith a dysgu'r hyn sydd wedi gweithio'n dda i roi budd i'r plant a gwella canlyniadau iddynt.  Mae'r arweinwyr yn darparu adborth, cefnogaeth ac arweiniad rheolaidd i'r staff ac roedd pawb wedi cyfrannu at yr adolygiad ansawdd gofal blynyddol.  Roedd rhieni hefyd wedi darparu sylwadau cadarnhaol ac adroddwyd ar eu barn yn yr adolygiad ansawdd gofal hynod fanwl. Roedd arsylwadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau ym mhob ystafell ac roedd yr wybodaeth a gasglwyd hefyd wedi cael ei defnyddio i gefnogi staff ymhellach yn eu gwaith wrth ddatblygu arfer.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio'u cyfoeth o brofiadau i wella canlyniadau i blant a staff. Mae'r arweinwyr yn adnabod y gwasanaeth yn dda.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rhoi lefel uchel o gefnogaeth i'r staff a chaiff adnoddau eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fo angen.

Roedd y staff wedi cael eu recriwtio mewn modd amserol ac effeithiol.  Roedd yr arweinwyr yn cefnogi'r staff yn eu rolau ac roedd staff newydd yn dilyn rhaglen ymsefydlu gadarn a oedd yn rhoi amser iddynt addasu ac ymgyfarwyddo â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Mae system fentora'n cael ei rhoi ar waith yn effeithiol, gan roi cydweithiwr i aelodau staff y gallant ddibynnu arno am gefnogaeth yn ddyddiol.  Roedd y broses ymsefydlu'n cael ei hadolygu a'i gwerthuso ar ddiwedd pob proses.  Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau a bod arfarniadau blynyddol yn ystyrlon a'u bod yn nodi sut byddai'r staff yn datblygu ymhellach yn eu rolau.  Mae rolau goruchwylio'n cael eu dirprwyo mewn rhai ystafelloedd; mae hyn yn cynorthwyo'r staff i ddatblygu eu sgiliau. Caiff targedau perfformiad unigol eu gosod i'r holl aelodau staff a dywedwyd wrthym sut roedd y staff yn teimlo bod y rhain o fudd iddynt ac yn eu cefnogi i ddatblygu ac ymdrechu i symud ymlaen.  Roedd y staff yn mynychu hyfforddiant priodol i wella'u gwybodaeth. Defnyddid cyfarfodydd tîm fel cyfle i rannu gwybodaeth. Mae'r staff sydd wedi mynychu hyfforddiant yn paratoi cyflwyniad byr ar gyfer y cyfarfod tîm nesaf, gan raeadru gwybodaeth newydd yn effeithiol drwy'r holl dîm.  Roedd yr arweinwyr yn dangos yn glir yr hyn roedd y gwasanaeth yn ceisio'i gyflawni ac yn cefnogi'r staff i fod yn arloesol, gan werthfawrogi'r gwaith maent yn ei wneud yn fawr.

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau priodol o uchel o'u hunain ac eraill, yn gosod targedau realistig, ac yn fodelau rôl da i ysgogi'r staff.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner ac yn hybu gweithio mewn partneriaeth â rhieni.

Mae'r arweinwyr yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r rhieni ynghylch yr hyn mae eu plant yn ei gyflawni ym Meithrinfa y Felin.  Roedd rhieni'n gallu cael gafael ar wybodaeth am ddiwrnod eu plentyn ar yr Ap gofal plant ar ddiwedd pob dydd. Mae gweithiwr allweddol eu plentyn yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig iddynt am sut mae eu plentyn wedi bod yn ymddwyn y diwrnod hwnnw ac mae'r rhieni'n gallu cofnodi gwybodaeth maent am ei rhannu â'r staff ynghylch sut mae eu plentyn wedi bod yn ymddwyn yn y cartref. Yn ogystal â hyn, caiff adroddiad cynnydd ei anfon adref bob tri mis, a chaiff cylchlythyrau eu rhannu. Mae arweinwyr yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol fel ffair Nadolig flynyddol er mwyn cwrdd â rhieni'n anffurfiol, ac maent yn cael cynnig cyfarfodydd bychain gyda gweithiwr allweddol eu plentyn.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio adnoddau yn y gymuned leol. Mae'r plant wedi gallu archwilio eu cymuned leol drwy ddigwyddiadau sydd wedi'u trefnu, megis ras grempogau ddiweddar a her lle'r oedd y plant yn gorfod adnabod tirnodau gwahanol yn y dref.  Roedd gwybodaeth berthnasol ar gael i rieni ac, yn dilyn adborth diweddar gan rieni, gallant gael cardiau ryseitiau am y prydau bwyd y mae'r plant wedi'u mwynhau ym Meithrinfa y Felin. Mae llyfrgell hefyd wedi cael ei chyflwyno a gall rhieni gael mynediad i lyfrau i'w mwynhau gyda'u plant, gyda rhai'n cefnogi digwyddiadau bywyd penodol, megis baban newydd yn cyrraedd y teulu.

Defnyddir llyfrau llawr mawr i arddangos a chofnodi gweithgareddau'r plant. Mae'r rhain ar gael i rieni eu gweld ac mae'r plant yn mwynhau eu defnyddio i fyfyrio ar yr hyn maent wedi'i gyflawni.  Croesewir y rheini i'r gwasanaeth yn rheolaidd a chlywsom sut mae'r rhieni'n cefnogi staff i'w helpu i gyfathrebu gyda'r plant pan nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf, ac mae cwrs Makaton (iaith arwyddion) wedi cael ei drefnu gan riant ar gyfer y tîm cyfan er mwyn eu helpu gyda chyfathrebu dieiriau yn y feithrinfa. Rhoddodd asiantaethau allanol adborth cadarnhaol hefyd, gan nodi bod y plant yn gwneud cynnydd da yn y feithrinfa.   Mae'r cyfraniad y mae'r gwasanaeth yn ei wneud i fywyd y plant yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r rhieni i wella dysgu a llesiant y plant. Maent yn cael eu hysbysu'n dda ac yn annog y rhieni i fod yn bartneriaid gweithgar.  Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n galed er mwyn hyrwyddo cysylltiadau da â'r gymuned ac asiantaethau partner.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai arweinwyr ystyried:

- Cefnogi'r holl blant i olchi eu dwylo gyda dŵr glân yn hytrach na phowlen a rennir cyn amser byrbryd a bwyd
- Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymhellach

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn, dirybudd oedd hwn a gynhaliwyd fel rhan o’n hamserlen arferol o arolygiadau.

Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 22 Chwefror 2018 o 9.20am tan 6pm ac ar 14 Mawrth 2018 o 11am tan 2pm.

Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau
- arsylwi ar arfer a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio’r dull SOFI 2 i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a’r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan y staff
- siarad â'r plant a'r staff
- darllen holiaduron gan rieni
- edrych ar ffeiliau'r plant a ffeiliau'r staff
- darparu adborth i'r person cofrestredig a'r person â gofal ar 14 Mawrth 2018

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Unigolyn cyfrifol | Ffion Roberts |
| Person â gofal | Gillian Kensall |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 118 |
| Ystod oedran y plant | 0 – 12 mlwydd oed |
| Oriau agor | 8am – 5.30pm |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | 23 Chwefror 2016 a 24 Chwefror 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn | 22 Chwefror 2018 a 14 Mawrth 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Nac ydy, nid yw'r gwasanaeth yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae hyn am fod y gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf, ond mae'r darparwr yn bwriadu adeiladu ar y ddarpariaeth Gymraeg. |
| Gwybodaeth ychwanegol: | |